amgueddfa cymru
national museum wales

# Amgueddfa Genedlaethol y Glannau



# Gwybodaeth gefndir




Agorwyd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe yn 2005 mewn warws rhestredig Gradd II ger y marina, gydag adeilad modern o wydr a llechen ynghlwm iddo.

Mae nifer o'r arddangosiadau yn defnyddio cyfryngau a thechnolegau rhyngweithio blaengar sy'n rhoi'r ymwelydd wrth y llyw.

Ar weithfannau rhyngweithiol, gall pobl ddysgu yn eu pwysau eu hunain ac ymchwilio i'r hyn sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

## Beth welwn ni yno?

Defnyddir themâu a straeon am bobl yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau i ddangos effaith diwydiant ar y ffordd yr oedden ni'n byw.

Mae'n edrych ar achos ac effaith y Chwyldro Diwydiannol yng Nghymru a'i effaith ar bobl, cymunedau a sefydliadau ac ar weddill y byd.



## Pa straeon ydym ni'n eu hadrodd?

Mae'r Amgueddfa yn edrych ar effaith eich cyflog neu swydd ar eich ffordd o fyw.

Er enghraifft, os oedd nifer fawr o bobl â swyddi ac arian ganddynt i'w wario, beth fydden nhw yn ei brynu?

Mae'n edrych ar dwf cymunedau gwahanol o amgylch trefi diwydiannol. Er enghraifft, sut fyddai cymunedau clos y pyllau glo a'r chwareli'n ymateb i bobl estron neu newydd yn dod yn rhan o'r gymuned?

Sut fyddai pobl yn helpu'i gilydd os byddai salwch, diweithdra neu farwolaeth yn y teulu? Mae'n edrych ar gysylltiad Cymru â'r byd. Er enghraifft, beth oedd effeithiau byd-eang y diwydiant glo?





## Yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau:

Cewch weld hanes cymunedau Cymreig aeth i chwilio am waith dramor, yn ogystal â straeon mewnfudwyr ddaeth i weithio yng Nghymru.

Cewch ddilyn y newid mewn trafnidiaeth. Er enghraifft, y dull cyflymaf o deithio ar y tir ym 1800 oedd marchogaeth ceffyl. Ganrif yn ddiweddarach, roedd y rheilffordd wedi cyrraedd pob rhan o'r byd bron a threnau yn cyrraedd chwe deg milltir yr awr. Dechreuodd y newid hwn yn hanes y byd yn ne Cymru.

Dysgwch am effaith diwydiant ar yr amgylchedd. Er enghraifft, edrychwch ar ddatblygiad trefi a'r diwydiannau gwahanol a dyfodd yn eu sgil. Beth ddigwyddodd i'r trefi yma pan ddiflannodd y swyddi diwydiannol? Beth oedd effeithiau amgylcheddol diwydiant a sut aeth pobol ati i lanhau ar eu hôl?




Am ragor o wybodaeth, ewch i
**www.amgueddfacymru.ac.uk/abertawe**




